

BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU

# Cynllun Busnes

2024-25

# Cynnwys


3 Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Gweithredol

5 Gwybodaeth am CITB

6 Tair colofn ein Cynllun

8 Rhoi gwybodaeth i bobl amrywiol a medrus am y gwaith adeiladu a'u galluogi

12 Datblygu system hyfforddi a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

14 Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu

18 Gweithio gyda'n partneriaid

19 Cynghorau'r Cenedloedd

20 Symleiddio'r ffordd rydym yn mesur llwyddiant

21 Buddsoddi yn ein busnes

22 Cyllid

# Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Gweithredol



## Rydw i a fy nhîm yn angerddol ynglŷn â'r her o gefnogi'r diwydiant adeiladu i lwyddo, nawr ac yn y dyfodol.

Mae Cynllun Busnes 2024-25 yn gam hollbwysig fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i drawsnewid tirwedd sgiliau'r diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr.

Mae'n un o nifer o ddogfennau manwl y byddwn yn eu lansio eleni a fydd yn amlinellu'n cynlluniau i gefnogi cyflogwyr i recriwtio, hyfforddi a datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnynt, nawr ac yn y dyfodol.

Bydd ein dogfen Bwriad Strategol yn dangos ein dull gweithredu hirdymor, a bydd ein Cynllun Strategol yn pennu ein cwrs dros y pedair blynedd nesaf. Adeiladwyd y Cynllun Busnes hwn ar y sylfeini hyn ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer sut rydyn ni'n dechrau ar y daith hollbwysig hon.

Ochr yn ochr â'n Cynlluniau Cenedl, bydd y cyhoeddiadau hyn yn darparu manylion ynghylch dull clir, syml a gonest o fynd i'r afael â'r heriau sgiliau sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae ein nod cyffredinol yn glir – cyflwyno cyfnod newydd i'r diwydiant drwy fynd i'r afael â heriau uniongyrchol ac amcanion tymor hir.

Mae tair rhan ein Cynllun yn mynd i'r afael â'r system sgiliau, gan ganolbwyntio ar osod y sylfeini er mwyn i gyflogwyr ac unigolion allu cael gafael ar yr hyfforddiant iawn, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn iddyn nhw:

- **RHOI GWYBODAETH I BOBL AMRYWIOL A MEDRUS AM Y GWAITH ADEILADU A'U GALLUOGI.**
- **DATBLYGU SYSTEM HYFFORDDI A SGILIAU I DDIWALLU ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL.**
- **CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI A DATBLYGU EI WEITHLU.**

Rydym yn datblygu Fframweithiau Cymhwysedd newydd i gwmpasu mwy o alwedigaethau. Y Fframweithiau hyn fydd yn diffinio'r wybodaeth, y sgiliau, y profiad a'r ymddygiad sydd eu hangen i gyflawni gweithgareddau penodol i safonau trosglwyddadwy ar gyfer y diwydiant.

Ac rydym wedi ymrwymo i ddenu mwy o bobl i fod yn hyfforddwyr ac aseswyr i alluogi'r system hyfforddi i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau. Byddwn yn ariannu cyrsiau hyfforddi ar gyfer aseswyr a hyfforddwyr i uwchsgilio rhagor o bobl drwy'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol a'r Ganolfan Achredu Arbenigol Genedlaethol. →

→ Byddwn yn ehangu mentrau, fel Cronfa Effaith y Diwydiant, gan feithrin arloesedd o ran cynyddu cyfraddau cynhyrchiant, amrywiaeth, recriwtio a chadw staff. Mae ein hymrwymiad i gefnogi busnesau bach a chanolig yn dal yn gadarn, gydag ymdrechion penodol i sicrhau bod hyfforddiant yn fforddiadwy, o ansawdd uchel ac yn hygyrch.

Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, mae cynaliadwyedd a helpu'r diwydiant i newid i ddyfodol sero net yn dal yn flaenoriaeth. Mae ein Cynllun Gweithredu Sero Net yn nodi'r cymorth cynhwysfawr sydd ar gael, a byddwn yn arwain o'r blaen drwy gynyddu'r buddsoddiad yn ystad y Coleg a'n fflyd werdd newydd fel rhan o'n hymdrech i ddatgarboneiddio.

Bydd ein perfformiad o ran cyflawni'r Cynllun Busnes hwn yn cael ei feirniadu yn erbyn fframwaith mesur strategol newydd. Bydd hyn yn darparu'r gallu i fesur cynnydd yn erbyn ein gweledigaeth a'n cenhadaeth a nodi lle mae angen i ni addasu ein cynlluniau i wella ein perfformiad er mwyn cyflawni ar gyfer y diwydiant adeiladu.

Yn dilyn yr Adolygiad ITB diweddar, dan arweiniad Mark Farmer, rydym wedi rhannu gyda thîm yr Adolygiad ein dadansoddiad o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol o ran datblygu sgiliau a hyfforddiant ymyraethau ar gyfer y diwydiant. Edrychwn ymlaen at weld yr Adroddiad terfynol, yn amlinellu canlyniad yr Adolygiad, a sylwadau'r Gweinidog ar ei argymhellion, maes o law, a byddwn yn sicrhau ein bod yn adlewyrchu ei gasgliadau, lle bo'n briodol, wrth ddrafftio ein Strategaeth a'n Cynllun Strategol newydd. Mae CITB, fel y corff sgiliau a safonau sy'n cael ei arwain a'i ariannu gan gyflogwyr ar gyfer y diwydiant adeiladu, ar flaen y gad o ran sicrhau gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol. Rydym yn cydnabod bod tirwedd y diwydiant yn esblygu ac rydym wedi ymrwymo i feithrin cydweithio a phartneriaethau i oresgyn heriau a manteisio ar gyfleoedd.

Mae'r cydweithio hwn â rhanddeiliaid, cyflogwyr a cholegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant eraill yn hollbwysig. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraethau cenedlaethol, ein Cynghorau Gwledydd, Sefydliadau Rhagnodedig, Ffederasiynau a Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant, i deilwra ein hymyriadau a diwallu anghenion unigryw cyflogwyr a dysgwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.



**TIM BALCON**
Prif Weithredwr



# Gwybodaeth am CITB

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yw'r corff safonau a sgiliau sy'n cael ei ariannu a'i arwain gan gyflogwyr ar gyfer y diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr.

Fel corfforaeth statudol, elusen a chorff cyhoeddus anadrannol, a noddir gan yr Adran Addysg, mae ein gwaith yn cefnogi'r diwydiant i ddenu, datblygu a chadw'r gweithlu adeiladu. Rydym yn cynnal safonau hyfforddiant adeiladu ac yn sicrhau bod Prydain yn parhau i adeiladu'n ddiogel.

**Ein Pwrpas yw** cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol.



# Tair colofn ein Cynllun

Eleni byddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau a fydd yn dechrau trawsnewid y system sgiliau ar gyfer y diwydiant adeiladu, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau a osodir gan gyflogwyr.

Nododd ein Hymgynghoriad â'r Diwydiant yn 2023 mai prif flaenoriaeth CITB yw 'cael mwy o bobl wedi'u hyfforddi yn y diwydiant', ac mae sicrhau bod hyfforddiant perthnasol o ansawdd da ar gael ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn yn ail agos iawn i hynny; ac yna drwy wella sgiliau'r rheini sydd eisoes yn y gweithlu.

Mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu ac yn manteisio ar y camau rydym eisoes wedi'u cymryd. Tair colofn ein Cynllun yw:

SYSTEM SGILIAU A HYFFORDDIANT

## 1 RHOI GWYBODAETH I BOBL AMRYWIOL A MEDRUS AM Y GWAITH ADEILADU A'U GALLUOGI.

Bydd ein gwaith yn helpu i leihau'r prinder sgiliau drwy gynyddu'r cymorth i gyflogwyr recriwtio, adeiladu mwy o lwybrau amgen i'r diwydiant, a helpu cyflogwyr i gadw ac uwchsgilio eu gweithlu presennol.

GWELD →

## 2 DATBLYGU SYSTEM HYFFORDDI A SGILIAU I DDIWALLU ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Mae cael system sgiliau yn hanfodol i allu cyflogwyr a diwydiant i hyfforddi. Mae angen iddo esblygu i ddiwallu anghenion y diwydiant adeiladu nawr ac yn y dyfodol. I wneud hyn, byddwn yn sefydlu diffiniad o gymhwysedd sy'n eiddo i'r diwydiant ac yn nodi llwybrau eraill i ymuno â'r diwydiant.

GWELD →

## 3 CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI A DATBLYGU EI WEITHLU

Bydd CITB yn rhagweld ac yn ymateb i anghenion hyfforddi nawr ac yn y dyfodol drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant i'r gweithlu presennol sy'n effeithiol i'r diwydiant ac ailgydbwyso ein cyllid i gyflogwyr yn unol â blaenoriaethau'r diwydiant, gan ddarparu cymhellion i gyflogwyr hyfforddi ac uwchsgilio eu gweithlu. Ar yr un pryd, byddwn yn chwalu rhwystrau i hyfforddiant yn ogystal â mynd i'r afael yn uniongyrchol â bylchau drwy feithrin partneriaethau agosach gyda cholegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant, gan helpu i wella ansawdd a hygyrchedd hyfforddiant.

GWELD →

TAIR COLOFN EIN CYNLLUN

## Mae cynaliadwyedd yn y diwydiant adeiladu yn allweddol i lwyddiant ein Cynllun ac, felly, mae wedi'i wreiddio yn ein tair colofn. Pedwar maes allweddol cynaliadwyedd yw: hyfforddiant a sgiliau; iechyd, diogelwch a lles; sero net; a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae mynd i'r afael â'r rhain drwy ein gweithgarwch yn cefnogi ein nod ehangach o leihau'r prinder sgiliau – nifer y bobl sy'n gweithio ym maes adeiladu, a'r bwlch sgiliau – nifer a'r math o sgiliau ar gyfer y diwydiant adeiladu.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy ariannu prosiectau a arweinir gan y diwydiant i newid y ffordd mae diwydiant yn gweithio; er enghraifft, drwy ein Cronfa Effaith ar y Diwydiant, cefnogi mentrau sy'n cael eu harwain gan gwmnïau sydd wedi cofrestru â'r Lefi i ymyriadau mesuradwy a chynaliadwy i gynyddu cynhyrchiant ar draws y diwydiant. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant rhad neu am ddim i fynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd drwy ein rhaglen Tegwch, Cynhwysiant a Pharch bresennol a'n comisiwn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi busnesau bach a chanolig gyda heriau recriwtio.



CYNLLUN BUSNES CITB 2024-25

# Rhoi gwybodaeth i bobl amrywiol a medrus am y gwaith adeiladu a'u galluogi

Tudalennau 8 – 11

## Mae angen llif cryfach o dalent ar y diwydiant adeiladu i weithio tuag at leihau'r prinder sgiliau ac mae ein hymyriadau'n ceisio chwalu'r rhwystrau rhag denu talent newydd.

Mae ein Cynllun yn canolbwyntio ar ddenu amrywiaeth ehangach o bobl i'n diwydiant a darparu cymorth mwy uniongyrchol i gyflogwyr er mwyn recriwtio a chadw'r bobl sydd eu hangen arnynt, nawr ac yn y dyfodol

Mae ein dull gweithredu ar gyfer piblinell pobl y diwydiant adeiladu yn cefnogi gweithwyr newydd ac yn helpu cyflogwyr i wella cynaliadwyedd eu busnesau drwy hybu cynhyrchiant, gan leihau'r angen am fwy o weithwyr i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau.

EIN TAIR COLOFN

1 RHOI GWYBODAETH I BOBL AMRYWIOL A MEDRUS AM Y GWAITH ADEILADU A'U GALLUOGI 2 3

# 1 Rhoi gwybodaeth i bobl amrywiol a medrus am y gwaith adeiladu a'u galluogi

| EIN DULL GWEITHREDU | EIN CYNLLUNIAU AR GYFER 2024-25 |
| --- | --- |
| **DARPARU MYNEDIAD AM DDIM I WYBODAETH DDIGIDOL HUNANWASANAETH AM YRFAOEDD A GWASANAETH CYFEIRIO I'R HOLL DDARPAR WEITHWYR, A CHEFNOGI UNIGOLION SYDD Â DIDDORDEB MEWN DECHRAU GYRFA YM MAES ADEILADU DRWY RWYDWEITHIAU LLEOL O GYFLOGWYR A DARPARWYR HYFFORDDIANT** | Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth ddigidol, hunanwasanaeth am ddim am yrfaoedd drwy ein gwefan Am Adeiladu sy'n cynnig gwybodaeth ac ysbrydoliaeth i weithwyr newydd ar draws gyrfaoedd ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.<br><br>Byddwn yn ehangu Am Adeiladu drwy ychwanegu gwasanaeth a fydd yn cysylltu pobl yn uniongyrchol â chefnogaeth a chyfleoedd lleol.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â thrydydd partïon yn y sector gyrfaoedd addysg i helpu cyflogwyr i ymgysylltu ag unigolion sydd â diddordeb, er enghraifft pobl ifanc mewn addysg bellach i ymuno â'r diwydiant adeiladu ar ôl iddynt gwblhau eu cymhwyster.<br><br>Byddwn yn parhau i ehangu'r rhaglen Adeiladu Sgiliau i dreialu gwelliannau a chreu deunyddiau i gefnogi ymgysylltu â phobl ifanc yn ogystal â deunyddiau addysgu ac asesu. |
| **DARPARU PRENTISIAETHAU'N UNIONGYRCHOL I GYNNAL ANSAWDD A CHYFRADDAU CYFLAWNI, GAN GEFNOGI CYNNYDD YN NIFER Y PRENTISIAID SYDD MEWN CYFLOGAETH BARHAUS** | Cynnal darpariaeth uniongyrchol a chontractau wedi'u rheoli yn yr Alban ar gyfer prentisiaethau drwy ein Colegau Adeiladu Cenedlaethol.<br><br>Bydd y Colegau'n parhau i ddarparu cefnogaeth i'r diwydiant drwy ddarparu ystod ehangach o Brentisiaethau o safon a rhaglenni hyfforddi eraill mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf |
| **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â THRYDYDD PARTÏON, GAN GYNNWYS YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU, ELUSENNAU A GWASANAETH CARCHARDAI EF, I GEFNOGI UNIGOLION I GAEL HYFFORDDIANT A CHYFLOGAETH** | Datblygu cytundebau partneriaeth gyda sefydliadau perthnasol ar lefel genedlaethol a lleol i gyrraedd ystod ehangach o ddarpar weithwyr.<br><br>Cydweithio â chyflogwyr a darparwyr drwy rwydweithiau lleol i gysylltu pobl o wahanol gefndiroedd â chyfleoedd addas yn y diwydiant adeiladu. → |

RHOI GWYBODAETH I BOBL AMRYWIOL A MEDRUS AM Y GWAITH ADEILADU A'U GALLUOGI

### ANNOG CYFLOGWYR I FANTEISIO AR BRENTISIAETHAU A LLWYBRAU MYNEDIAD ERAILL

Parhau i ddarparu Timau Cymorth i Newydd-Ddyfodiaid ledled Prydain Fawr i gefnogi cyflogwyr i recriwtio prentisiaid, drwy gefnogi cyflogwyr gyda'u holl ofynion recriwtio i gael gafael ar grantiau a sicrhau darpariaeth hyfforddiant addas. Hefyd, bydd yn cefnogi cyflogwyr i gadw prentisiaid nes eu bod wedi llwyddo i gyflawni eu hyfforddiant drwy ddarparu hyfforddiant a chymorth mentora parhaus.

### DARPARU GRANTIAU I GYFLOGWYR SY'N CYNNIG PRENTISIAETHAU A LLWYBRAU ERAILL I WEITHWYR NEWYDD.

Bydd CITB yn cynnal grantiau prentisiaeth sylweddol i weithwyr newydd, gan gynnwys grantiau presenoldeb o £2,500 y flwyddyn i bob prentis a grant cyflawni o £3,500 i bob prentis.

Bydd y grant I Mewn i Waith, sy'n talu £500 i gyflogwyr am gwblhau cyfleoedd profiad gwaith i ddysgwyr ar gyrsiau addysg bellach, yn cael ei ehangu i gynnwys cyrsiau addysg bellach ychwanegol a byddwn yn cynyddu nifer yr unigolion sy'n gymwys i gael cymorth grant fesul cyflogwr. Bydd grant eilaidd o £1,000 yn cael ei dalu os bydd yr un dysgwr yn symud ymlaen i o leiaf dri mis o gyflogaeth barhaus gyda'r cyflogwr.

Mae CITB yn cynnig cymorth ychwanegol i gyflogwyr drwy'r Timau Cymorth i Newydd-Ddyfodiaid i helpu i fentora gweithwyr newydd i'w helpu i gadw eu swyddi.

### PARHAU Â'R LLWYBRAU PRESENNOL I MEWN I'R DIWYDIANT

Byddwn yn parhau i gefnogi Hybiau presennol CITB, sy'n darparu un ateb recriwtio i gyflogwyr adeiladu. Mae'r Hybiau'n cysylltu cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol, Partneriaethau Menter Leol, asiantaethau cymunedol, a phartneriaid eraill â'i gilydd, er mwyn gallu datblygu cyflogaeth a helpu pobl o gymunedau lleol sy'n barod i weithio ar safleoedd adeiladau i gael cyflogaeth barhaus.

Yn 2024, byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n dechrau swyddi ac yn aros mewn cyflogaeth barhaus drwy ein Hybiau.

### CEFNOGI UNIGOLION I ORESGYN RHWYSTRAU SY'N EU HATAL RHAG DILYN LLWYBRAU MYNEDIAD I'R DIWYDIANT ADEILADU

Cefnogi dysgwyr a chyflogwyr gyda chostau teithio a llety drwy'r grant Teithio i Hyfforddi i oresgyn y rhwystrau y mae rhai dysgwyr yn eu hwynebu gyda'u rheidrwydd i deithio.

Byddwn yn cymryd camau i wella ein holl gynnyrch a gwasanaethau yn dilyn adolygiad Cydraddoldeb/Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant allanol i nodi a chwalu rhwystrau. →

RHOI GWYBODAETH I BOBL AMRYWIOL A MEDRUS AM Y GWAITH ADEILADU A'U GALLUOGI

| | |
|---|---|
| **ARIANNU PROSIECTAU DAN ARWEINIAD Y DIWYDIANT I ARWAIN NEWID YN Y FFORDD Y MAE DIWYDIANT YN GWEITHIO** | Mae ein Cronfa Effaith ar y Diwydiant yn helpu cyflogwyr i lunio a phrofi atebion newydd i fynd i'r afael ag amrywiaeth o'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Yn ogystal â pharhau i gefnogi cyflogwyr ym meysydd cynhyrchiant a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rydym yn ehangu'r Gronfa i gynnwys recriwtio a chadw gweithwyr. |
| **DARPARU HYFFORDDIANT I FYND I'R AFAEL Â CHYNALIADWYEDD A CHYNHYRCHIANT** | Ehangu'r gefnogaeth ar gyfer hyfforddiant am ddim i gyflogwyr i faes cynhyrchiant a thegwch, cynhwysiant a pharch, drwy ddatblygu deunyddiau sy'n canolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig.<br><br>Drwy ein partneriaeth ag Ysgol y Gadwyn Gyflenwi, byddwn yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i helpu busnesau bach i recriwtio pobl o gefndiroedd a chymunedau amrywiol.<br><br>Rydym yn parhau i gefnogi'r Cynllun Get It Right, gan weithio gyda chontractwyr mawr i wella cynhyrchiant drwy leihau gwastraff a chyfraddau gwallau ar y safle. Mae rhaglen Get It Right yn darparu hyfforddiant i weithwyr presennol a hyfforddiant i weithwyr fel hyfforddwyr ac aseswyr Get It Right, er mwyn sicrhau bod modd cynnal manteision cynhyrchiant yn y tymor hwy. |
| **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â THRYDYDD PARTÏON YN Y SECTOR GYRFAOEDD YN Y BYD ADDYSG I DDARPARU GWYBODAETH BERTHNASOL AM YRFAOEDD A DEUNYDDIAU ATEGOL** | Gweithio'n agosach gyda Llysgenhadon STEM a phartneriaid rhwydwaith lleol i wella cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd hyrwyddiadau gyrfaoedd adeiladu.<br><br>Gwella ansawdd ac argaeledd deunyddiau gyrfaoedd i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol. |

> **"Mae'r Hwb yma i helpu pobl i gael eu troed i mewn i'r diwydiant adeiladu.**
> **"Mae'n rhoi profiad o safle i ddysgwyr a'r cymwysterau y mae gwir eu hangen ar gyflogwyr adeiladu lleol."**

**RICHARD THORP**
Rheolwr Hwb Adeiladu ar y Safle Cyngor Dinas Caerlŷr

CYNLLUN BUSNES CITB 2024-25

# Datblygu system hyfforddi a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

Tudalennau 12 – 13

## Nid yw'r system sgiliau bresennol yn gweithio mor effeithiol ag y gallai ar gyfer y diwydiant adeiladu.

Mae gor-ddibyniaeth ar brentisiaethau i sicrhau'r niferoedd o weithwyr newydd sydd eu hangen ac nid yw'n hawdd i gyflogwyr nac unigolion ganfod llwybrau hyfforddi neu asesu eraill.

Mae'r rhan hon o'n Cynllun yn hanfodol er mwyn cefnogi gweithwyr newydd i ymuno â'r diwydiant ac er mwyn uwchsgilio'r gweithlu presennol. Nododd ein Hymgynghoriad â'r Diwydiant fod 'creu llwybrau mynediad ychwanegol' yn flaenoriaeth bwysig i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau, ac ystyriwyd bod 'datblygu system fwy hyblyg o ddatblygu sgiliau' yn ffactor hollbwysig o ran gwella'r ddarpariaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd CITB yn canolbwyntio ar gytuno ar ddiffiniad o gymhwysedd sy'n eiddo i'r diwydiant a datblygu adnodd ymhellach i gofnodi ei gyflawniad. Byddwn yn defnyddio hyn fel sylfaen i adeiladu llwybrau amgen effeithiol i ymuno â'r diwydiant adeiladu, a dros amser, system sgiliau mwy hyblyg a modiwlaidd wedi'i dylunio gan ystyried strwythur y diwydiant ac anghenion cyflogwyr adeiladu.

← EIN TAIR COLOFN

1 2 DATBLYGU SYSTEM HYFFORDDI A SGILIAU I DDIWALLU ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL 3

# 2 Datblygu system hyfforddi a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

| EIN DULL GWEITHREDU | EIN CYNLLUNIAU AR GYFER 2024-25 |
|---|---|
| **ARWAIN Y GWAITH GYDA'R DIWYDIANT I GYTUNO AR UN DIFFINIAD CYMHWYSEDD SY'N EIDDO I'R DIWYDIANT A'I DDIWEDDARU'N BARHAUS AR GYFER POB RÔL ADEILADU, GYDA LLWYBRAU HYFFORDDI SY'N GALLUOGI DATBLYGU SGILIAU A GALLUOEDD MEWN FFORDD HYBLYG** | Datblygu Fframweithiau Cymhwysedd newydd i gwmpasu mwy o alwedigaethau, a fydd yn golygu bod gennym fframweithiau ychwanegol ar waith sy'n cwmpasu gofynion sgiliau'r diwydiant. Y Fframweithiau Cymhwysedd fydd yn diffinio'r Wybodaeth, y Sgiliau, y Profiad a'r Ymddygiad sydd eu hangen i gyflawni gweithgareddau penodol i safonau trosglwyddadwy ar gyfer y diwydiant.<br><br>Datblygu a phrofi'r set gyntaf o lwybrau amgen. Bydd y rhain yn cynnwys rhaglenni hyfforddi ac asesu strwythuredig a fydd yn eistedd ochr yn ochr â phrentisiaethau i ddod â gweithwyr newydd ychwanegol a mwy amrywiol i lefel o gymhwysedd trosglwyddadwy.<br><br>Cyhoeddi a chynnal mapiau cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer galwedigaethau blaenoriaeth, gan gynnwys gosod brics, gwaith coed a saernïaeth. Bydd y wybodaeth hon yn cefnogi cyflogwyr/unigolion i nodi cyfleoedd datblygu a gofynion cymhwysedd ar gyfer rôl benodol.<br><br>Parhau â'n rôl fel Corff Gosod Safonau i sicrhau bod yr holl Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, y Safonau Cyfnod Byr, yr NVQs/SVQs a bod prentisiaethau yng Nghymru a'r Alban yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Lle bynnag y bo modd, bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â datblygu Fframweithiau Cymhwysedd. |
| **GWEITHIO GYDA'R DIWYDIANT A CHYNLLUNIAU CARDIAU I SYMUD TUAG AT GYDNABYDDIAETH FWY HYBLYG O SGILIAU A GALLUOEDD, SY'N CYD-FYND Â FFRAMWEITHIAU CYMHWYSEDD** | Datblygu Cofrestr Hyfforddiant Adeiladu CITB, fel ei bod yn cofnodi sgiliau a galluoedd sy'n cyd-fynd â chymhwysedd, gan alluogi unigolion a chyflogwyr i olrhain cyflawniadau a throsglwyddo sgiliau.<br><br>Cydweithio ag ECITB, y diwydiant a gweithredwyr cynlluniau cardiau i gefnogi gallu cyflogwyr i ddangos tystiolaeth, cofnodi a rhannu manylion galluoedd a manylion dysgu gydol oes eu gweithlu. |
| **ARWAIN Y GWAITH O GYDWEITHIO AR DRAWS CYRFF GOSOD SAFONAU, LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL, IFATE YN LLOEGR A'R SEFYDLIADAU CYFATEBOL YNG NGHYMRU A'R ALBAN, SEFYDLIADAU DYFARNU, RHEOLEIDDWYR A CHYRFF SGILIAU ERAILL I SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU CYMHWYSEDD Â PHRENTISIAETHAU YN GYSON AC YN CYD-FYND Â CHYMWYSTERAU ERAILL** | Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod llwybrau mynediad yn diwallu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant.<br><br>Gweithio'n agos gyda Llywodraethau cenedlaethol i sicrhau bod cyllid y Llywodraeth yn cyd-fynd â'r sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant. |
| **SBARDUNO ARLOESEDD YN Y METHODOLEGAU DYSGU AC ASESU A DDEFNYDDIR I GEFNOGI'R GWAITH O DDATBLYGU SGILIAU** | Nodi methodolegau hyfforddi ac asesu effeithiol sy'n lleihau'r rhwystrau i hyfforddiant a chymwysterau i ddysgwyr a chyflogwyr ac yn helpu i leihau'r prinder hyfforddwyr ac aseswyr. |

CYNLLUN BUSNES CITB 2024-25

# Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu

Tudalennau 14 – 17

Gyda llif cryf o waith a gofynion newydd sy'n dod wrth i'r diwydiant newid yn gyflym a moderneiddio, byddwn yn buddsoddi yn y gweithlu presennol ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddiant yn gweithio i'r diwydiant.

Rhaid i hyfforddiant fod yn fforddiadwy, o ansawdd uchel ac yn hygyrch i bawb, gan ddatblygu cymhwysedd unigolion a gwella'r sylfaen sgiliau mewn busnesau. Bydd ein gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar wella hygyrchedd hyfforddiant ar gyfer busnesau bach a chanolig.

Nododd ein Hymgynghoriad â'r Diwydiant bod 'sicrhau bod hyfforddiant perthnasol o ansawdd da ar gael ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn' yn flaenoriaeth bwysig i'r diwydiant. Dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr mai dyma oedd y mater pwysicaf i fynd i'r afael ag ef, ac mai gwella ansawdd a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth oedd y meysydd pwysicaf i'w gwella. Gofynnodd ymatebwyr hefyd i ni ailgydbwyso cymorth ariannol a chymhellion drwy fuddsoddi mwy yn yr hyfforddiant galwedigaethol sy'n helpu gweithwyr i ennill cymhwysedd, gan barhau â'n cefnogaeth i sgiliau hanfodol a datblygiad.

← EIN TAIR COLOFN

1 2 3 CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI A DATBLYGU EI WEITHLU

# 3 Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu

## EIN DULL GWEITHREDU

## EIN CYNLLUNIAU AR GYFER 2024-25

### GALLUOGI CYFLOGWYR I ARWAIN PENDERFYNIADAU CYLLIDO, GAN SICRHAU BOD EIN BUDDSODDIADAU'N YMATEB I ANGHENION BUSNES A BLAENORIAETHAU TYMOR HWY'R DIWYDIANT

Ehangu darpariaeth ein Rhwydweithiau Cyflogwyr lleol i gyrraedd bob cwr o Brydain Fawr. Rhwydweithiau Cyflogwyr sy'n gosod eu blaenoriaethau cyllido eu hunain i ddiwallu anghenion sgiliau lleol a'i gwneud yn haws i fusnesau bach gael gafael ar yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt.

Gwella'r cysylltiad rhwng cymorth CITB ag anghenion hyfforddi cyflogwyr drwy weithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i gynhyrchu Cynlluniau Sgiliau Sector. Byddwn yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth Sgiliau'r Sector Adeiladu Cartrefi i weithredu'r blaenoriaethau sgiliau y mae'r sector adeiladu cartrefi wedi'u nodi yn eu Cynllun Sector. Yn 2024-25, bydd y Bartneriaeth Sgiliau Sector Seilwaith yn dechrau cyflawni gwaith hanfodol i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr yn y sector Seilwaith. Yn 2024-25, byddwn yn lansio Cynlluniau Sgiliau Sector ar gyfer y sector Atgyweirio, Cynnal a Chadw a Gwella yn ogystal â'r sectorau Masnachol, Cyhoeddus a Diwydiannol.

### GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT I SICRHAU CWMPAS, ANSAWDD A PHERTHNASEDD DARPARIAETH HYFFORDDIANT AC ASESU

Dechrau creu rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant a fydd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer darparu cymorth CITB i gyflogwyr. Yn ystod 2024-25, byddwn yn gweithio'n helaeth gyda darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid i nodi sut bydd y Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant yn gweithredu ac i hyrwyddo manteision y Rhwydwaith gyda darparwyr, rhanddeiliaid a chyflogwyr.

Bydd y Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant, a fydd yn cael ei sefydlu'n llawn yn 2026, yn cynnig hyfforddiant hyblyg o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cyflogwyr.

### MYND I'R AFAEL Â'R PRINDER HYFFORDDWYR AC ASESWYR DRWY GEFNOGI GWEITHWYR PROFIADOL I FANTEISIO AR GYFLEOEDD HYFFORDDI AC ASESU

Ariannu cyrsiau hyfforddi ar gyfer aseswyr a hyfforddwyr drwy'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol a'r Ganolfan Achredu Arbenigol Genedlaethol.

Gweithio gyda'r Adran Addysg, i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i hyfforddwyr ac aseswyr ymysg gweithwyr profiadol sydd ar fin ymddeol.

Ehangu'r Gronfa Effaith ar y Diwydiant i gefnogi ac ariannu atebion i gynyddu nifer yr hyfforddwyr ac aseswyr, ac annog y diwydiant i gydweithio â darparwyr hyfforddiant.

Cynnig cymorth ychwanegol ar gyfer rhaglenni hyfforddi hyfforddwyr ac aseswyr drwy ein Cynllun Grantiau presennol.

Gosod sylfeini llwybrau hyfforddi amgen gyda golwg ar fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yn y tymor hwy. Bydd hyn yn golygu nodi dulliau mwy hyblyg ac arloesol sy'n gwneud rolau hyfforddwyr ac aseswyr yn hygyrch i ystod ehangach o bobl gyda chymhwysedd galwedigaethol. →

CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI A DATBLYGU EI WEITHLU

## MYND I'R AFAEL Â BLAENORIAETHAU SGILIAU SY'N DOD I'R AMLWG A BLAENORIAETHAU SGILIAU'R DYFODOL, GAN FUDDSODDI MEWN DARPARIAETH UNIONGYRCHOL LLE NAD YW'R CYFLENWAD O HYFFORDDIANT YN BODLONI'R GALW

Gweithio gyda'n rhanddeiliaid a'n Rhwydweithiau Cyflogwyr i ganfod bylchau yn y cyflenwad hyfforddiant, lle nad yw anghenion sgiliau lleol neu genedlaethol yn cael eu diwallu, a chymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Byddwn yn gwella ein cyllid ar gyfer y Rhaglen Gymhwysol Arbenigol i wneud hyfforddiant yn fwy hygyrch ar gyfer grwpiau llai o ddysgwyr.

Ymestyn ein gwaith gydag ECITB a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r gwaith o ddarparu Piblinell Seilwaith Cenedlaethol y Llywodraeth. Bydd rhaglen waith a gyhoeddir yn ffurfioli cydweithio o ran cynllunio'r gweithlu ac ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â diffygion yn y cyflenwad o hyfforddiant.

Datblygu mentrau i fynd i'r afael â meysydd lle maen angen newydd neu newid yn yr anghenion, fel y meysydd digidol, sero net a chynhyrchiant. Byddwn yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer buddsoddiad gan CITB yn y meysydd hyn ac yn ehangu cwmpas ein Cronfa Effaith ar y Diwydiant i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogaeth i gyflogwyr mewn perthynas â sgiliau digidol a sero net.

Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â meysydd lle mae galw mawr am sgiliau, fel y sectorau Cladin, Niwclear, Rheilffyrdd a Phriffyrdd.

Datblygu ein darpariaeth hyfforddiant uniongyrchol drwy'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol, drwy gynyddu gallu a chapasiti a thrwy gomisiynau mewn ardaloedd lle nad oes modd i gyflenwyr presennol lenwi bylchau mewn sgiliau. →

**Bydd grant CITB yn galluogi Novus i gyflwyno nifer o raglenni arweinyddiaeth i arfogi rheolwyr â'r adnoddau ar gyfer heddiw ac yfory... mae'n hanfodol ein bod yn symud ymlaen yn y maes hwn."**

**MATT PITT**
Cyfarwyddwr Pobl, Novus Solutions



CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI A DATBLYGU EI WEITHLU

| | |
|---|---|
| **CEFNOGI CYFLOGWYR I NODI'R HYFFORDDIANT SYDD EI ANGEN AR EU GWEITHWYR A GWERTH YR HYFFORDDIANT HWNNW I'W BUSNES** | Cynllunio, datblygu a phrofi gwasanaeth Dadansoddi Anghenion Hyfforddi newydd ar gyfer busnesau bach. Bydd y gwasanaeth yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt.<br><br>Bydd y gwasanaeth Dadansoddi Anghenion Hyfforddi ar gael ac yn cael ei brofi drwy Rwydweithiau Cyflogwyr lleol yn 2025.<br><br>Bydd cynllunio'r gweithlu'n well, a fydd yn cael ei wneud ar y cyd ag ECITB ac eraill, yn rhoi darlun lefel uchel o'r hyfforddiant sydd ei angen i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau presennol a helpu busnesau i gynllunio ar gyfer anghenion gweithluoedd yn y dyfodol. |
| **DATBLYGU CYNNIG ESTYNEDIG O E-DDYSGU A FFYRDD AMGEN O DDARPARU MYNEDIAD UNIONGYRCHOL AT WYBODAETH A DYSGU I FUSNESAU AC UNIGOLION** | Ehangu'r cynnig dysgu ar-lein rhad ac am ddim drwy Ysgol y Gadwyn Gyflenwi i ddiweddaru rhaglenni hyfforddi a deunyddiau dysgu a nodwyd.<br><br>Adolygu ein lefelau uchel o hyfforddiant i asesu a ydynt yn ymarferol ar gyfer darparu dysgu ar-lein. |

**"Mae'r Cynllun Sgiliau Sector Adeiladu Cartrefi yn ganlyniad i'r ddiwydiant yn dod at ei gilydd i bennu faint o fuddsoddiad sydd ei angen i ddarparu'r cartrefi o ansawdd uchel sydd eu hangen ar gymunedau."**

**STEWART BASELEY**
Cadeirydd Gweithredol, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi



# Gweithio gyda'n partneriaid

## Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau sgiliau sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae angen dull cydweithredol ar gyfer heriau fel y bwlch sgiliau sy'n ehangu, gan ddod â chyflogwyr, y diwydiant adeiladu ehangach a'r Llywodraeth at ei gilydd i nodi materion yn awr ac yn y dyfodol, datblygu atebion, a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

## CYFLOGWYR

Byddwn yn parhau i weithio gyda chyflogwyr yn y tair gwlad i annog pobl i fanteisio ar sgiliau a hyfforddiant a'u cefnogi. Ochr yn ochr â'r cynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer eleni, bydd modd i gyflogwyr gael mynediad at CITB yn y ffyrdd canlynol:



## TÎM YMGYSYLLTU Â CHWSMERIAID

Mae ein tîm o gynghorwyr ar gael i'n holl gwsmeriaid, i'w helpu gyda'r pethau mawr sy'n bwysig a'r pethau bychain sy'n gwneud gwahaniaeth. Gall Cynghorwyr CITB ddarparu cyngor, arweiniad, a chymorth ar gyfer cael gafael ar hyfforddiant, grantiau, cyllid a phrentisiaethau CITB. Gallant gyfeirio at ffynonellau eraill o gefnogaeth, cymorth a chyngor, gan gynnwys rhwydweithiau a phartneriaid lleol - er enghraifft, Partneriaethau Menter Lleol, Canolfannau Twf a chynlluniau lleol eraill.

## TÎM CYMORTH I NEWYDD-DDYFODIAID

Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno ein Tîm Cymorth i Newydd-Ddyfodiaid yn Lloegr a byddwn yn ymestyn sylw y Tîm i Gymru a'r Alban eleni. Maen nhw'n cefnogi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, a busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y Lefi sydd wedi ymddieithrio, i gael gafael ar gyllid ac yn y broses o gyflogi prentis. Maent yn darparu cymorth prentisiaeth cynhwysfawr i gyflogwyr a gallant helpu i ddod o hyd i ymgeisydd, cael gafael ar gyllid, a dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant addas.

## GRANTIAU A CHYLLID

Mae CITB yn darparu grantiau i gyflogwyr yn y diwydiant adeiladu sy'n darparu hyfforddiant i'w gweithlu. Mae'r Cynllun Grantiau yn helpu'r diwydiant i gynnal safonau uchel, gan sicrhau bod pobl yn cael eu hyfforddi yn y sgiliau cywir er mwyn i'r diwydiant ffynnu. Mae grantiau ar gyfer hyfforddiant o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyrsiau byr, cymwysterau a phrentisiaethau. Rydym wedi dyrannu dros £100 miliwn at grantiau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â'n Cynllun Grantiau ar gyfer hyfforddiant, rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau penodol. Gall cyflogwyr gael gafael ar gyllid i gefnogi profiadau hyfforddi a datblygu o ansawdd uchel i'w gweithwyr. Mae modd gwneud ceisiadau i'n Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant a'n Cronfa Effaith ar y Diwydiant, a dyrannwyd dros £10m ar gyfer prosiectau a ariennir eleni.

# Cynghorau'r Cenedloedd

## Mae ein Cynghorau Cenedloedd yn rhan allweddol o'n llywodraethu ac yn sicrhau bod gennym ddolen adborth gan gyflogwyr yn y tair gwlad i'n Bwrdd ym mhob cyfarfod. Mae hyn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cydweithio ac yn ymgynghori â diwydiant i ddiwallu anghenion cyflogwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae ein Cynllluniau Cenedl blynyddol yn ategu'r Cynllun Busnes hwn. Cefnogir y Cynllluniau hyn gan ein Cynghorau Cenedloedd ac maent yn cynnwys ymyriadau a phrosiectau penodol ar gyfer pob gwlad yn unol â'n tair blaenoriaeth. Mae prosiectau penodol yn parhau i gael eu targedu ar l efel genedlaethol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn ymateb i anghenion a heriau gwahanol.



### Sefydliadau a Ffederasiynau Rhagnodedig

Mae ein partneriaethau gweithio cryf a chadarnhaol gyda Sefydliadau a Ffederasiynau Rhagnodedig yn allweddol i gyflawni ein Cynllun, a byddant yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu safonau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Sefydliadau Rhagnodedig sy'n canolbwyntio eu gwaith ar y cyd ar y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- **PRENTISIAETHAU A GWEITHWYR NEWYDD**
- **SGILIAU ARBENIGOL**
- **GWELLA CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR COFRESTREDIG YN BARHAUS**
- **GRWPIAU HYFFORDDI A DYFODOL Y RHWYDWEITHIAU CYFLOGWYR**
- **SERO NET.**

Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith gyda'r Ffederasiynau i fynd i'r afael â'u heriau o ran sgiliau a recriwtio, defnyddio ein grantiau, ein cyllid a'n cynigion arbenigol i'r eithaf.

# Symleiddio'r ffordd rydym yn mesur llwyddiant

## Byddwn yn mesur ein perfformiad wrth gyflawni'r Cynllun hwn yn erbyn tri **mesur canlyniadau** allweddol sy'n cyd-fynd â'n Pwrpas.

Byddant hefyd yn cael eu defnyddio i fesur ein cynnydd yn erbyn yr uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Strategol.

Bydd y system symlach hon o fesur yn darparu'r gallu i fesur cynnydd yn erbyn ein gweledigaeth a'n cenhadaeth a nodi lle mae angen i ni addasu ein cynlluniau i wella ein perfformiad er mwyn cyflawni ar gyfer y diwydiant adeiladu. Bydd ein holl weithgareddau ac ymyriadau yn cyfrannu at gyflawni o leiaf un o'r tri mesur hyn.

Y sail i'r mesurau hyn yw rheolaeth perfformiad cadarn a fframwaith mesur effaith manylach. Mae ein mesurau hefyd yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r diwydiant sef: 'cael mwy o bobl wedi'u hyfforddi yn y diwydiant', sef prif flaenoriaeth CITB: 'sicrhau bod hyfforddiant perthnasol o ansawdd da ar gael ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn'; a 'gwella sgiliau'r rheini sydd eisoes yn y gweithlu.'




O GYNNYDD YN NIFER Y GWEITHWYR NEWYDD YN Y DIWYDIANT




O GYNNYDD YN NIFER Y CYFLOGWYR SY'N CAEL EU CEFNOGI I HYFFORDDI AC UWCHSGILIO EU GWEITHWYR




O GYNNYDD YN NIFER YR UNIGOLION SY'N CAEL EU CEFNOGI I GAEL HYFFORDDIANT AC UWCHSGILIO



# Buddsoddi yn ein busnes




## Ein huchelgais yw bod y Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn dod yn brif ddarparwr hyfforddiant sgiliau adeiladu ac adfer ein sgôr Ofsted 'Rhagorol'.

I gyflawni hyn, rydym yn buddsoddi i greu capasiti a gallu hyfforddi ac asesu ychwanegol ar draws tri safle'r Coleg i sicrhau cynnydd yn amrywiaeth a nifer y cyfleoedd hyfforddiant masnachol a ariennir gan y Lefi o fewn y cwmpas i'r diwydiant.

Eleni byddwn yn buddsoddi bron i £30m yn adeiladau, seilwaith a pheiriannau ein Coleg Adeiladu Cenedlaethol, a bydd cynaliadwyedd yn un o'r ystyriaethau pennaf wrth wella ystadau a chyfleusterau'r Colegau. Bydd y gwaith yn dechrau eleni gan ganolbwyntio ar ein safle yn Erith, gan gynnwys gwaith dymchwel a pharatoi yn ein dau safle arall, yn Bircham ac Inchinnan, lle bo angen. Bydd y buddsoddiad hwn yn gwella profiad dysgwyr a phrentisiaid, ymrwymiad a wnaethom pan ddewisom ni gadw tri safle'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn 2021.

Byddwn hefyd yn buddsoddi tua £10m mewn technoleg newydd i alluogi a chefnogi cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn well gan ymgysylltu â CITB, rhyngweithiad dysgwyr â'r cwricwlwm, ac i wneud ein gweithrediadau a'n prosesau mewnol yn fwy effeithiol ac effeithlon.

BYDDWN YN BUDDSODDI BRON I **£30m** YN EIN NCC

BYDDWN YN BUDDSODDI TUA **£10m** MEWN TECHNOLEG NEWYDD

# Cyllid

| | 2023-24 £m | 2024-25 £m | 2025-26 £m | 2026-27 £m |
|---|---|---|---|---|
| INCWM Y LEFI | 196.1 | 202.8 | 205.2 | 200.0 |
| INCWM DI-LEFI | 51.5 | 49.3 | 46.8 | 46.4 |
| DEFNYDDIO CRONFEYDD | 10.1 | 15.0 | 4.7 | 9.8 |
| **CYFANSWM INCWM** | **257.7** | **267.1** | **256.7** | **256.2** |
| PRENTISIAETHAU | 72.7 | 69.5 | 69.8 | 73.4 |
| CYMWYSTERAU | 16.3 | 16.1 | 15.3 | 14.8 |
| CYRSIAU BYR | 27.9 | 23.3 | 26.5 | 19.1 |
| **CYFANSWM Y GRANT** | **116.9** | **108.9** | **111.6** | **107.2** |
| CYLLID I GEFNOGI CYFLOGWYR A'R DIWYDIANT | 11.0 | 17.2 | 7.5 | 5.6 |
| YMYRIADAU WEDI'U HARIANNU | 18.7 | 25.8 | 27.9 | 32.2 |
| **CYFANSWM CYLLID Y CYFLOGWYR** | **146.6** | **151.9** | **147.0** | **145.1** |
| TIMAU YMGYSYLLTU | 10.9 | 14.0 | 14.5 | 15.0 |
| RHEOLI CYNNYRCH | 19.0 | 20.9 | 24.3 | 24.8 |
| COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL | 22.7 | 25.3 | 21.9 | 22.2 |
| PRENTISIAETHAU | 20.6 | 18.5 | 14.5 | 14.8 |
| STRATEGAETH A PHOLISI | 4.9 | 4.9 | 5.0 | 5.1 |
| RHEDEG Y BUSNES | 33.0 | 31.6 | 29.4 | 29.2 |
| **CYFANSWM GWARIANT HEB FOD YN GYLLID** | **111.1** | **115.1** | **109.7** | **111.1** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **257.7** | **267.1** | **256.7** | **256.2** |




